# DINESYDD Dydd Gwener

10c
11 Awst
1978


# Atal y Wobr

## Canu annhestunol - "Awdl i bentwr o gerrig a gawsom."

**Ni fu Cadeirio yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 1978, a hwn oedd y pedwerydd tro i'r wobr gael ei hatal mewn pum Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd. (Enillodd Gwilym R. Jones gadair Caerdydd ym 1938 am ei awdl "Rwy'n edrych dros y bryniau pell....")**


Teimlai Euros Bowen y gellid yn deg gwobrwyo ymgais Hen Ddinesydd ond ym marn Brinley Richards "byddai gwobrwyo'r gerdd fel y mae yn arwain at fwy o feirniadaeth ar y beirniaid nag ar y cystadleuydd." Cytunai Brinli a Derec Llwyd Morgan mai Glan Rhyd oedd y bardd gorau yn y gystadleuaeth, ond teimlent ei fod yn canu'n annhestunol — "awdl i bentwr o gerrig a gawsom" meddai Brinli am y gerdd oedd yn son am hen gaer Dinas Meilig, ar y Garn y tu allan i Lanarth.

Pwysleisiodd yr Archdderwydd Geraint mai cadair y genedl yw hon ac na ddylid esgyn iddi oni cheir teilyngdod. Aeth ymlaen i son am y traddodiad barddol Cymraeg a'r cydwybod barddol gan ddweud na allai beirdd yr oesoedd canol ddioddef celfyddyd eilradd.

"Pa ddiben i orffen y gwaith?" gofynnai

"Heb ei orffen yn berffaith?"

Lliniarwyd cryn dipyn ar siom y gynulleidfa fawr gan Syr Geraint Evans a ddychwelodd i'r llwyfan i ganu Y MARCHOG i fonllefau uchel o gymeradwyaeth.




## Diolch i W.D.Williams am Englyn

Y DINESYDD

**Diddan Ddinesydd dyddiol — yn Gymraeg
yw 'mhryd bwyd boreol
Os ffynna hwn gwn mai'r gol
Nesa fydd Eco nosol.**

W.D.W.



*Rhagor o ddŵr oer ar ddigwyddiadau poeth Iau*

## Rhoi'r bai ar y Gwersyllwyr

Mae nifer o garafanwyr ar Faes Carafannau'r Eisteddfod wedi eu cythruddo gan y cwyno sydd wedi bod yn Y DINESYDD DYDDIOL gan wersyllwyr ynglŷn â safle'r maes pebyll. Honnant fod ymddygiad gwersyllwyr ar hyd y blynyddoedd wedi bod mor wael fel nad oedd gan yr Eisteddfod ddewis ond eu gosod mewn man digon pell oddi wrth bawb arall.

Mae'n debyg fod yna ryw ddau gant yn llai o garafannau ar y maes swyddogol eleni nag oedd yn Wrecsam llynedd, a hynny o ganlyniad uniongyrchol i'r twrw a'r trafferth ofnadwy a grewyd ar y meysydd pebyll a charafanau gan wersyllwyr meddw yn oriau mân y bore, yn ôl y carafanwyr. Mae'n debyg fod pethau cynddrwg fel y bu'n rhaid i'r carafanwyr ffurfio grwpiau "vigillante" er mwyn sierhau eu bod hwy a'u teuluoedd yn cael rhywfaint o gwsg. O ganlyniad i hynny penderfynodd nifer o garafanwyr beidio â dod i safle swyddogol yr Eisteddfod, gan na wyddent bryd hynny fod y maes pebyll a'r maes carafanau yn mynd i fod ar wahan.

## CYWIRIAD

**Carem gyhoeddi cywiriad i'n hadroddiad ar gyfarfod blynyddol UCAC ddydd Mawrth a ymddangosodd yn Y DINESYDD DYDDIOL ddoe. Bydd 100 o blant yn cychwyn yn Ysgol Uwchradd Gymraeg Glantaf, Caerdydd ym mis Medi, nid 70 fel y dywedai'r adroddiad. Maint yr ysgol yn y pendraw fydd 750 o blant ynghyd â chweched dosbarth (o rhyw 250 gellid tybied) cyfanswm o bron fil o blant ac nid 700 fel y dywedodd Y DINESYDD DYDDIOL. Ymddiheuriadau i Mr Ben Harries ac i unrhyw un arall a gafodd eu camarwain**

## Cyfarfod Cyhoeddus

Ymlaen gyda
Chymdeithas yr Iaith
Cadeirydd:
Gwilym E. Roberts
Siaradwyr:
Dr Pennar Davies,
Rhodri Williams
Wynfford James
Y Babell Lên: 12.30
Yfory, Dydd Sadwrn,
Awst 12fed

# O'R POST

ANNWYL SYR,

Yr wyf yn Gymro Cymraeg yn gweithio fel clerc yn swyddfa'r Rheilffyrdd Prydeinig yng Nghaerdydd. Yn fy marn i nid yw Swyddogion Cymdeithas yr Iaith bob amser na chall na chyfrwys. Nid yw'r modd y maluriwyd pabell y Rheilffyrdd, gan adael rhai eraill sydd yn waeth, ond amlygiad pellach o hyn. Beth am babell y National Bus Company, prif gystadleuwyr y rheilffyrdd? Pam na fuont yn mynnu i Gyngor yr Eisteddfod gau honno yn y modd trahaus yr aethant eilwaith i fygwth pabell y Rheilffyrdd ar Ddydd Mawrth. Holed y Swyddogion, ar frys, faint o'u haelodau a anfonodd un llythyr Cymraeg i'r Rheilffyrdd erioed, a rhoddwch chwithau wybod y canlyniad i'ch darllenwyr Ddydd Sadwrn.

Fe ddylai'r rhai hŷn, sydd yn cefnogi ac yn cynghori yn y dirgel, fod yn ddoethach na cheiliogod y colegau. Gwyr pobl felly, siawns, fod mwy nag un ffordd i gael Wil i'w wely, a pheidied neb a dweud eu bod wedi dihysbyddu pob dull di-drais cyn dod a'u morthwylion. Gobeithiaf er mwyn popeth nad esgynir lefel eu protest i falurio cyfarpar rheoli trenau, a thrwy hynny, yn ddiarwybod iddynt eu hunan, beryglu bywyd pobl ddiniwed.

I ysgafnhau tipyn bach i orffen, a fyddech yn cyhoeddi'r brotest fach hollol answyddogol isod, gan un fydd yn gorfod mynd i'w waith fore Llun nesaf, i ail ddechrau esbonio, i rai nad ydynt eisiau gwrando bellach, fod gan y Gymdeithas achos teilwng, ac mai eu tacteg sydd ar fai. Gobeithiaf yn arw na chredant, yn eu diniweidrwydd, mai anogaeth i ail ddechrau morthwylio yw'r penillion rhwng difrif a chwarae yma.

Yn gywir a difalais,

ARWYN THOMAS,
Casnewydd.

ANNWYL OLYGYDD,

Diddorol oedd sylwi ar y slam fach yn *Y Dinesydd* ddydd Mercher yn son am 'Trobwynt' fel "y cylchgrawn ofergoelus hwn". Petai'r gohebydd wedi darllen "Trobwnt" fe fyddai'n gweld ynddo erthygl *yn erbyn ofergoeliaeth*! Ac yn dangos yn glir fod y Beibl yn rhybuddio rhag y fath gelwydd peryglus. Fe ryddhawyd Cymru o gaethiwed ofergoeliaeth drwy gyfrwng Efengylwyr y Diwygiad Methodistaidd. Petai'r Diwygiad heb ddigwydd ni fyddai *Dinesydd*, Eisteddfod na iaith Gymraeg i'w cael heddiw.

Diolch fod y gwir yn dal i gael ei gyhoedd!

Yn gywir,

ARFON WYN

o o o

ANNWYL OLYGYDD,

Ofer fyddai i mi wastraffu gofod i'ch hatgoffa mai trwy ffrwyth gwyddoniaeth a thechnoleg go aruchel yr ydych yn llwyddo i argraffu'r Dinesydd mor hwylus ar faes yr Eisteddfod bob dydd, mai trwy dechnoleg y microffon mae'r dorf yn clywed gweithgareddau'r llwyfan, mai technoleg y cemegydd a burodd yr olew i yrru eich car i'r maes, ac mai technoleg a pheirianeg a greodd y car hwnnw.

Na! digon yw dweud fod gwyddoniaeth a thechnoleg yn ran annatod o unrhyw ddiwylliant, o oes y Cerrig ymlaen.

A fynnech i Gymru fod yn wahanol?

Yn gywir iawn,

ALWYN R. OWENS,
Cadeirydd,
Y Gymdeithas Wyddonol Genedlaethol'.

ANNWYL OLYGYDD,

**Mae'n amlwg mai papur-newydd newydd yw'r *Dinesydd Dyddiol*, gyda newyddiadurwyr amaturaidd.**

Pwy ond newyddiaduron amaturaidd — heb wybod sut mae'r Genedlaethol yn gweithio — fyddai'n gallu ysgrifennu 'Clive Betts... wedi torri pob rheol anysgrifenedig' trwy ddweud na fyddai Cadeirio.

Mae un rheol gyda ni. Dydyn ni ddim yn ENWI'R beirdd cyn y seremoni. Ond, am flynyddoedd, mae newyddiadurwyr wedi cyhoeddi eu syniadau am y coroni a'r cadeirio.

Felly, *Ddinesydd Dyddiol*, gwnewch yn siwr o'ch ffeithiau.

Yn gywir,

CLIVE BETTS

Mae'n syndod i ni fod Clive Betts yn ceisio bychanu'r *Dinesydd Dyddiol* drwy ein cyhuddo o fod yn amaturaidd gan ei bod yn hysbus i bawb mai amaturiaid ydym, yn rhedeg y papur hwn yn gwbl wirfoddol gyda chymorth a chyngor llawer o ffrindiau caredig, rhai ohonynt yn ohebwyr proffesiynol megis Mr Betts ei hun.

I ateb y cyhuddiadau eraill yn ei lythyr: mae'r ffaith a wyddom sut mae'r Genedlaethol yn gweithio ai peidio yn amherthnasol. Nid yw'r "rheolau anysgrifenedig" y cyfeiriwyd atynt yn ddim byd i'w wneud â Chyfansoddiad yr Eisteddfod: cyfeirio yr ydym at bethau symlach na hynny megis peidio â difetha mwynhad miloedd o bobl a thyndra achlysur mawr drwy adael y gath mas o'r cwd dim ond i gael ymddangos yn hollwybodus; a pheidio â gwneud dim niwed i'r Eisteddfod yn ariannol drwy beri i gannoedd o bobl gadw draw oherwydd eu bod wedi eu siomi am nad oes Cadeirio neu Goroni i fod. GOL.

ANNWYL OLYGYDD,

Fe ellir canmol Cymdeithas yr Iaith Gymraeg nid yn unig am ei hymdrechion a'u llwyddiant i gyfeiriad di-seisnegeiddio maes yr Eisteddfod, ond hefyd dau gyfraniad arall i'r Brifwyl. Maent wedi trefnu rhaglen cyflawn a llwyddiannus o adloniant nosweithiol ar gyfer y to ifanc ac maent wedi sicrhau nad yw sarhâd arall ar yr Eisteddfod wedi mynd heibio heb brotest. Yr wyf yn cyfeirio at y llinyn hir o wleidyddion Llafur a dderbyniodd wahoddiadau i gymryd rhan amlwg yn y brifwyl. Nid oes raid chwilio ymhell am resymau am y gwahoddiadau yma. Mae derbyn pres poced o'r llywodraeth yn golygu colli annibynniaeth ac yn arwain at y math o seboni amherthnasol i'r ysgrifennydd gwladol a gafwyd yn y seremoni agoriadol. Hefyd sylwer fod cadeirydd y pwyllgor gwaith yn aelod blaenllaw o'r Blaid Lafur.

Mae diddordeb pleidiol yn yr Eisteddfod a'r datganiadau arwynebol a diargyhoeddiad yn ei sgil yn ffynnu pan mae etholiad cyffredinol ar y gorwel ond mae'r nifer helaeth o'r gynulleidfa a wrthododd roi unrhyw fath o gymeradwyaeth i Mr Morris yn hyrwyddo'r gobaith na fyddent yn syrthio i'r addewidion gwag yn fwy nac a wnaeth gwyr Caerfyrddin yn 1974.

Yn ddidwyll,

ALUN A. PREECE

o o o

O olwg hagrwch malu
Gan griw naif yr iaith,
Mae cwt, ger adwy'r talu
Heb arno staen na chraith,
Lle na fu'r fagad fu'n gwneud "fuss"
Yn rhwygo ger y Cwmni "Bus".

Draw o'r ymryson ynfyd
Chwerw a'r British Rail,
Mae yno flas y Saesneg
Yn aros "without fail".
Beth ydyw'r "difference" yn y plan
Sydd rhwng dwy stondin mewn dau fan?

A llonydd Cenedlaethol
I'r "National" a gaed,
Er gweld gan bawb o'r bobol
Yr heniaith dan eu traed.
Gan lanc na merch ni falwyd dim,
A hynny sydd yn ofid im.

Mwyach rhaid gadael canol
Y stwrllyd gwmwd hwn
Am swyddfa ddiwydiannol
A dull y gwaith a wn,
I weithio'n dawel, gyda sêl,
Yn glerc yr iaith i British Rail.

## DIM CADAIR

Daria am y pedwerydd — tro yma
Onid trwm ein cystudd?
Di Wobr ydyw i brydydd
Diflas yw Dinas Caerdydd.

D.M. LLOYD

## Y BROTEST

Rhyfelgyrch gwyr y fawlgan — a 'ta-ta'
'Ti — Tis' o'r tent aflan.
Dirwest sy'n gwrthod arian
Bois y Bir i godi'r gan.

D. GWYN EVANS

# Colofn Hysbysebion Personol

GWYNN A LUNED — Mawr ddiolch am y croeso. Eifion.

YN EISIAU. Mae angen gong ar Theatr Bara Caws ar gyfer eu perfformiadau nos Wener a nos Sadwrn, ar fenthyg. Cysyllter â Bethan Miles, Pabell y *Dinesydd Dyddiol*.

YN EISIAU — Yn Llundain, Myfyriwr graddedig yn chwilio am ystafell sengl mewn fflat ac ati yng nghyffiniau Bloomsbury (Russel Square), ar gyfer mis Hydref 1978. Cysyllter â Michael Prosser yn stondin Cwm Rhymni (neu ffôn Rhiwderyn 3376).

GWEN JONES (o Gonwy) — Gwnaf dy weld ym mhabell y Cymry ar Wasgar pnawn heddiw. Eric.

Cofiwch am oedfaon y Tabernael ar ddydd Sul am 11.00 ac am 5.00.

I MRS GWEN WYN JONES, Llansannan. Cyfarchion Calonnog cylch *Y GADLAS* ar eich anrhydedd heddiw.

# Y BRIFWYL O'R BRIFDDINAS

Gwasanaeth cynhwysfawr HTV Cymru o Faes Eisteddfod Caerdydd i Gymru benbaladr.

POB BORE o ddydd Llun hyd ddydd Sadwrn gan ddechrau am 10a.m. bob dydd, dwy awr o'r Wyl yn fyw o lwyfan yr Eisteddfod.

Y PRIF SEREMONÏAU — dydd Mawrth Y Coroni, dydd Iau Y Cadeirio, dydd Gwener Croesawu'r Cymry Alltud — oll ar HTV Cymru.

PENAWDAU'R NEWYDDION am 1.20p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener o Faes y Brifwyl.

Y DYDD a REPORT WALES. *Y Dydd* o'r Maes bob dydd o ddydd Llun hyd ddydd Gwener am 6p.m. *Report Wales* am 6.18p.m.

RHAGLEN DDWYIEITHOG EI CHYFLWYNIAD bob nos am 6.30p.m. o nos Fawrth hyd nos Wener, ac ar nos Sadwrn am 5.55p.m.

Y GADAIR A GWOBR GOFFA DANIEL OWEN — Caiff HTV Cymru yr anrhydedd o gyflwyno'r gadair a hefyd gwobr Goffa Daniel Owen yng nghystadleuaeth y nofel.

YR WYTHNOS. Rhifyn arbennig o'r *Wythnos* nos Lun yr Wyl am 8.30p.m. yng nghwmni Cenwyn Edwards.

AR Y MAES — gwasanaeth cyfieithu i'r di-Gymraeg, Pabell Groeso, Pabell y Plant, taflen y dysgwyr, lliw a llun stiwdio a baneri'r Cwmni — cyfraniad i fywyd, gweithgarwch a sioncrwydd y Maes.

Ymunwch â ni

YN DATHLU DENG MLYNEDD O WASANAETH
o Faes y Brifwyl ac o'r Ganolfan Deledu
yng Nghaerdydd.

CYMRU WALES

# CROESO I FAES YR EISTEDDFOD

## OND COFIWCH
## AM Y PETHAU A GYNHELIR
## MEWN MANNAU ERAILL

**Y THEATR NEWYDD**

Nos Lun } Y TŴR (Gwenlyn Parry)
Nos Fawrth } Cwmni Theatr Cymru

Nos Fercher } OPERA ROC — DIC
Nos Iau } PENDERFYN
Cwmni Theatr yr Ymylon

Nos Wener } PASIANT CYFLWYNO
Nos Sadwrn } CAERDYDD
Plant Ysgol Bryntaf

**THEATR BUTE**
(Coleg Cerdd a Drama)

Nos Lun } BLODEUWEDD
Nos Fawrth } (Saunders Lewis)
Nos Fercher } CWMNI COLEG
ABERYSTWYTH

**COLEG CYNCOED**

Tri Chyngerdd Siambr
(5.00p.m.)
Mawrth: Offerynwyr Coleg Cerdd Cymru
Mercher: Consort Pres Cymreig
Iau: Côr Telynau Ann Griffiths

**LLYFRGELL SALISBURY**
**(Coleg y Brifysgol)**

DRWY WYTHNOS YR EISTEDDFOD
ARDDANGOSFA O LYFRAU PRIN

**THEATR Y SHERMAN**

Nos Lun — } Y LLINYN ARIAN (ffilm)
Nos Fawrth }

Nos Fercher — EQUUS (Peter Shaffer)
Cwmni Coleg y Drindod

Nos Iau — CYSTADLEUAETH ACTIO
Cwmni Heol y Crwys
Cwmni Llwyndyrus
Cwmni'r Dewin

Nos Wener } NOS YSTWYLL (cyf.
Nos Sadwrn } J.T. Jones *o Twelfth Night.*)
Cwmni'r Eisteddfod

**THEATR YR ARENA**
(yn adeilad y Sherman)

Nos Lun — RHWNG BYW A MARW
(detholion o ddramâu Samuel Beckett)

Nos Fawrth } PRY YN Y PREN
Nos Fercher } (rhaglen amrywiol yn cynnwys
TRI CHYFAILL
gan John Gwilym Jones)

Nos Iau } THEATR BYPEDAU
Nos Wener } Jane Phillips
Nos Sadwrn }

# Coch, gwynt a gwyrdd




Daeth Huw Meredith, o Pocklington yn Swydd Efrog, i weithio fel argraffydd yn Swyddfa'r Urdd, Aberystwyth am chwe mis o dan gynllun profiad o waith y Llywodraeth. Sais uniaith ydoedd pan ddaeth ond yn awr, chwe mis yn ddiweddarach, y mae Cymraeg Huw yn rhugl. Y mae yn yr Eisteddfod am yr wythnos yn gwerthu balwns ar stondin yr Urdd. Bydd ei chwe mis o weithio yng Nghymru yn dod i ben ddydd Sadwrn, ac yn yr hydref, bydd yn mynd i Rydychen i astudio'r Clasuron. Pob hwyl iddo yno.

# Cen ar Gren

**Meddwl y buaswn i'n galw ym mhabell yr Echo ar ôl iddo fod mor neis, a rhoi gofod deilwng i'r *Dinesydd Dyddiol* (The Great Welsh Daily!) nos Fercher. Gwnaeth yr *Echo* ymdrech dda eleni, wel mwy o ymdrech nag o'r blaen beth bynnag. Mae dobyrs yr *Echo* wedi bod yn brysur yn pastio geiriau Cymraeg dros fap o Gymru, y cartwnau strip yn olrhain hanes Ponty a Pop sy'n byw yn Aberflyarff (anghyfieithiadwy) mae'n braf cael darllen hanes Bleddyn a Nigel (wn i ddim os mai cŵn neu ddefaid ydynt). Mae hiwmor Gren yn adnabyddus i ni yn y De bellach. e.e. gŵr yn meddwl fod QPR yn frawd i J.P.R.! ac mae ambell i gyfeithiad yn ychwanegu at y doniolwch. Rhywun yn canu "Gadewais fy nghalon ym Mhenrhiwceibr.**

**Syniad da arall oedd chwyddo cartwnau i tua llathen sgwar. 'Roedd y Dinesydd wedi meddwl am wneud hun ond pwy fuase eisiau gweld llathen sgwar o wyneb Alun Evans!**

**Un peth arall na wnaeth y Dinesydd (hyd yn hyn beth bynnag) oedd argraffu llun a'i ben i lawr fel y gwelwyd ar yr un dudalen a'r stori neis amdanom. Darlun o babell enwog British Rail gyda'r Saesneg yn ucha unwaith eto!**



*Titus [illegible] yn cael [illegible] i'w dad.*

# Pwy yw'r CEFNOGWR?



**Dyma Gefnogwr newydd i chi heddiw - wel (a dyma'r cliw mawr) Cefnogwraig y tro hwn. Pwy sydd yn cuddio o dan yr het a'i chefn at y camera? Dewch a'ch atebion i babell y DINESYDD DYDDIOL. Het fowler Y DINESYDD DYDDIOL yn wobr i'r cyntaf i roi'r ateb cywir.**

**Llwyddodd neb i ddyfalu pwy oedd Cefnogwr ddoe; dyma fe, Edward yn gwenu yn ei het.**



# Oll yn eu gynnau gwynion

**Echnos 'roedd Cwmni Drama Llwyndyrus yn cystadlu ym mhrawf terfynol y ddrama yn y Brifddinas, ond yn y prynhawn y bu'r wir ddrama.**

**Clwstwr o dai, nad ydynt hyd yn oed yn gwneud pentref yw Llwyndyrys ar y terfyn rhwng Llŷn ac Eifionydd. Ardal ddawnus, weithgar ar odre'r Eifl efo'i chôr a'i chapel.**

**Bnawn ddoe 'roedd y cwmni'n llwytho eu dillad a'u hoffer drama yn y fen yn y brifddinas cyn cychwyn am y theatr. Rhan o'r offer oedd nifer o ddrylliau, argyhoeddedig iawn eu hymddangosiad. Ac fe welodd un o ddineswyr Caerdydd y rhain yn cael eu llwytho. A'r munud hwnnw dyma fe'n rhuthro i gaban teleffon cyfagos ac yn teliffonio'r heddlu.**

**Ymhen dim o amser, 'roedd holl heddlu'r dref allan a'u ceir a'u moto beics a'i sirens yn bloeddio wrth iddynt erlid fen y cwmni drama a oedd bellach yn teithio'n hamddenol tuag at y theatr. Fe'u daliwyd ger Gerddi Soffia, eu stopio, eu llusgo allan o'r fen a'u holi, fe chwiliwyd pob modfedd o'r fen ac yna, daeth y cwestiwn mawr, 'And now, where are the guns?'**

**Rhaid bod llawer o wyneba coch pan gafwyd eglurhad ar yr holl beth — ac ar ôl perfformans fel 'na yn y prynhawn, mae'n syndod iddyn nhw allu perfformio o gwbl yn y nos. Ond o leiaf, dyna glamp o gompliment i wneuthurwyr offer a phrops y cwmni am wneud y fath arfau realistaidd. Roedd yn wen o glust i glust pan alwodd heibio i babell y *Dinesydd Dyddiol* ddoe.**



OS BYDDWCH YN PRYNU NEU'N GWERTHU, MAE'N TALU FFORDD I YMGYNGHORI A'R ARBENIGWYR.

**antiques** UNLIMITED

PRYNIR EITEMAU SENGL NEU GYNNWYS TAI YN EU CRYNSWTH

7 Heol Penllin Yr Eglwys Newydd, Caerdydd. Tel: 62748 neu 616415.

Os hoffech gael sgwrs yn Gymraeg wrth chwilio am ddarnau sbâr i'ch car, ymwelwch â:

**METELAU LLANDOW**

Mynwent o gerbydau a mynydd o sgrap!
RHIF FFÔN:
LLANILLTUD FAWR
2756

# POSTERI CERDDI

**Cynnig arbennig 3 am bris 2 cludiad am ddim**

Fel arfer £1.00 yr un yw pris posteri lliw 20″ × 30″. Am gyfnod byr yn unig rydym yn gwerthu drwy'r post 3 am £2.00. 3 am bris 2.

Ysgrifennwch i ddweud pa 3 poster yr hoffech gael ac anfonwch £2.00 (yn daladwy i ORIEL) at: ORIEL, Cyngor Celfyddydau Cymru, 53 Heol Siarl, Caerdydd CF1 4ED

| | |
|---|---|
| A1 | Yr Wylan - Dafydd ap Gwilym |
| A2 | The Seagull - Glyn Jones |
| A3 | A Child's Christmas in Wales - Dylan Thomas |
| A4 | Dysgub y Dail - Crwys |
| A5 | Fern Hill - Dylan Thomas |
| A6 | Cynddylan on a Tractor - R S Thomas |
| A7 | Hon - T H Parry-Williams |
| A8 | Cofio - Waldo Williams |
| A9 | Eifionydd - R Williams Parry |
| A10 | Maggie Fach - Idris Davies |
| A11 | Carol y Crefftwr - Iorwerth C Peate |
| A12 | I Wallt Merch - Dafydd ab Edmwnd |
| A13 | Do you Remember 1926? - Idris Davies |
| A14 | Cara Wallia Derelicta - David Jones |
| A15 | Machlud - Alan Llwyd |
| A16 | Eisteddfod 1176-1976 |
| A17 | Aberdaron - Cynan |
| A18 | Y Fantell Fraith - I D Hooson |
| A19 | Eryr Pengwern |

**Special Offer 3 for the price of 2 post free**


Normally these full colour 20″ × 30″ posters retail at £1.00 each. For a limited period only we can offer them for sale, by post only, at 3 for £2.00. 3 for the price of 2.

Write, stating your choice of 3 posters and enclosing £2.00 (payable to ORIEL) to: ORIEL, Welsh Arts Council, 53 Charles Street, Cardiff CF1 4ED

# POEM POSTERS

# Croeso i Gastell Caerdydd

An invitation to dine at Cardiff Castle



Estynnwn wahoddiad i chi i ymuno gyda ni mewn noson o ddifyrrwch a cherddoriaeth traddodiadol Gymraeg.

Venez passer une bonne soirée dans l'ambiance médiévale de nos anciennes traditions galloises de chants, de musique et de gaieté.

Komt u eens een avond met traditionele gastvrijheid van Wales bijwonen. Een avond van lekker eten en gezellige muziek in een romantische omgeving.

You are invited to share in an evening of Welsh hospitality - a delicious traditional feast accompanied by the lovely melodies of Wales and the ingenious compositions of the Tudor Court sung by the enchanting ladies of Morgannwg accompanied by harp and minstrels.

For bookings: Telephone CARDIFF 372737

# MOUNT SORREL

**HEOL PORTHCERI**
**Y BARRI, DE MORGANNWG ☎740069**
***A.A.*   ***R.A.C.*

GWESTY GYDA 40 O YSTAFELLOEDD GWELY.
(35 gyda ystafelloedd ymolchi preifat)
Teledu Lliw, Radio a Ffôn ymhob ystafell.

CYNADLEDDAU   PRIODASAU   CINIO A DAWNS

DEWCH I'R BARRI
unrhyw amser
Hawdd cyrraedd yno o faes yr Eisteddfod
3 milltir o Faesawyr y Rhŵs
8 milltir o Gaerdydd
Ystafell fwyta a bariau cyhoeddus



**Taith Gymreig**
**Côr Gwladwriaeth**
**Hwngari**
(Côr Kodaly o Debrecen)

6ed i'r 25ain Tachwedd
1978

Cwmbran, Aberdâr, Caerdydd, Abertawe, Ystrad Mynach, Porthcawl, Castell Nedd, Treorci, Caerfyrddin, Aberystwyth, Crymych, Llwchwr, Queensferry, Caernarfon, Porthmadog, Sir Fôn, Conwy, Rhyl.

*Manylion gan:*
*Gyngor y Celfyddydau, 9 Stryd yr Amgueddfa,*
*Caerdydd CF1 3NX. Ffôn: 394711*

# Cymdeithas Adeiladu Nationwide Dyma'r Gymdeithas i bara am oes

## Bwrdd Rhanbarthol Cymru

Cadeirydd: Syr Harry Llewellyn CBE
Ardalydd Môn DL FSA Hon FRIBA FR HistS;
Syr Hugo Boothby Bt DL YH
Alex Gordon CBE PPRIBA LLD; T Mervyn Jones CBE MA

## Rheolwr Dros Gymru

Huw Lloyd Williams

## Swyddfeydd

Caerdydd
Casnewydd
Cwmbran
Penarth
Y Barri
Penybont Ar Ogwr
Pontypridd
Abertawe
Castell Nedd
Llanelli
Caerfyrddin
Hwlffordd
Aberystwyth
Bae Colwyn
Bangor
Wrecsam
Y Rhyl
Caerffili
Aberdar
Aberdaugleddau

**Nationwide**

## Y Gymdeithas Adeiladu am oes

Cronfeydd dros £3,000m,wedi ei awdurdodi fel buddsoddiad Ymddiriedaethol
Aelod o Gymdeithas y Cymdeithasau Adeiladu

# CORNEL Y DYSGWYR

**Gair byr am drafodaeth hir a gafwyd yn y Babell brynhawn Mercher ar ddyfodol yr Wlpan. Cafwyd ymateb bywiog o'r llawr i arweiniad clir a chryno Gwilym Roberts, ond gan fod peth anghytundeb ar y modd y dylai'r Wlpan ddatblygu, penderfynwyd gadael y mater yn nwylo 'is-bwyllgor' o bedwar dyn profiadol - Gwilym Roberts, Dan Lyn James, Merfyn Morgan, a Robert Powell, a bydd y gŵyr da hyn yn cyfarfod cyn diwedd yr wythnos i drafod y cam nesaf.**

Gan fod cymaint o angen llyfrau darllen addas ar gyfer dysgwyr o bob grdd, mae'n siwr mai un o gyfryniadau pwysicaf yr wythnos i ddyfodol dysgu'r Gymraeg oedd darlith Ivor Owen ddoe ar lenydda i'r ail-iaith. Rhoddodd air o brofiad personol a thrafododd hanfodion y math yma o lenyddiaeth gan roi cyfarwyddyd ymarferol a fydd o gryn help mae'n sicr i'r rhai sy'n fodlon mentro i'r maes anodd hwn.

Profiad hyfryd dros ben oedd treulio'r awr ginio ddoe yn gweld y dysgwyr ifainc o'r ysgolion cynradd (ac ambell ddysgwr hŷn hefyd) wrth eu bodd yn gwylio'r pantomeim 'Branwen' ac yn ymateb yn afeithus i'r perfformiad.

Brynhawn heddiw, fe gynhelir yr ail o drafodaethau'r wythnos. Y pwnc ydi 'O'r Dosbarth i'r Gymdeithas' a phwy yn well i agor na Cennard Davies ac yntau wedi cyhoeddi cyfrol ar 'Dros y Bont' ac wedi gwneud cyfraniad nodedig o lwyddiannus fel athro ail-iaith. Da o beth, i ni Gymry Cymraeg yn arbennig efallai, fydd clywed y dysgwyr yn son am eu profiadau nhw wrth geisio croesi'r bont a chael gwybod ganndyn nhw pa ganllawiau sy mwyaf effeithiol. Y cadeirydd fydd Cen Cên, arweinydd y tim gweithgar a fu wrthi'n paratoi'r babell ar gyfer gweithgareddau'r wythnos.

Ar ôl y drafodaeth, tua pedwar o'r gloch, fe fyddwn yn croesawu ymwelwyr o'r gwledydd Celtaidd i'r babell, ac y mae rhai ohonynt wedi cytuno'n garedig i'n diddanu am ychydig â chân a dawns.

## Canolfan Dechnoleg

Mae angen i'r Eisteddfod roi mwy o sylw i ochr wyddonol a thechnolegol bywyd Cymru, oedd neges Syr Melfyn Rosser wrth agor pabell TECHNO 78 ar ddechrau'r wythnos. Bydd cyfle i ymateb i'w alwad mewn cyfarfod cyhoeddus prynhawn heddiw am ddau o'r gloch ym Mhabell y Cymdeithasau lle bydd trafod ar yr ymgyrch i sefydlu Canolfan Dechnoleg yma yng Nghaerdydd.

Y Gymdeithas Wyddonol sydd wedi galw'r cyfarfod a'r prif siaradwr fydd Mr Peter Gillard, Peiriannydd Sifil sydd wedi paratoi memorandwm manwl ar y cynllun. Deallir fod neges o gefnogaeth eisoes wedi'i dderbyn oddi wrth Archesgob Cymru, y Gwir Anrhydeddus G.O. Williams, a disgwylir y bydd y cyfarfod yn galw ar yr awdurdodau i weithredu ar y cynlluniadau cyn gynted a phosibl.

## CLECS ?&!?&!

Gwych o beth yw gweld Emrys Cleaver yn ei hen le ym Mhabell Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru. Bu'n wael ers rhai blynyddoedd bellach ond mae'r galon yn mynnu tynnu'r corff llesg tua chonolfan y Canu Gwerin ar y maes. Y mae'r diddordeb mor fywiog ag erioed a'r atgofion yn byrlymu. Dyma beth yw brwdfrydedd eisteddfodol!

Mae'n debyg fod John Morris, Ysgrifennydd Cymru wedi cael pedwar tocyn am ddim i fynd i weld rifiw Canolfan yr Urdd, Caerdydd, *Neb yn Deilwng* yn yr Arena neithiwr. Chwarae teg iddo am sbario'r amser i fynd i weld gwaith artistiaid eraill ac yntau'n brysur iawn yn rihyrsio ar gyfer ei sioe ei hun y noson ganlynol.

Gellir gweld John Morris yn "perfformio" yn rifiw Theatr Bara Caws yng Nghlwb Tito's heno a nos Sadwrn am 10.30p.m..

## PWYSIG

Cynhelir cyfarfod i swyddogion cyhoeddusrwydd a chysylltiadau cyhoeddus Cymraeg eu hiaith Cymru gyfan heddiw am 2.30p.m. ym mhabell Teledu Harlech. Erbyn hyn, mae mwy a mwy o Gymry Cymraeg yn mentro i'r maes hwn (mae rhyw 25 mewn swyddi o'r fath ar hyn o bryd, a gobeithir y bydd 20 o'r rheini'n bresennol yn y cyfarfod) ac wrth iddynt hwy aeddfedu mewn profiad a medr yn y maes hwn, y teimlad yw y gall pawb elwa drwy gyd-gyfarfod a chyd-drafod syniadau er mwyn dysgu dulliau newydd a phroffesiynoleiddio'r holl faes yn gyffredinol.

Mae'n bosib y sefydlir corff parhaol o ganlyniad i'r cyfarfod hwn. Cwmni Teledu Harlech sy'n noddi'r cyfarfod, a Gwilym Owen, Pennaeth Adran Newyddion Teledu Harlech fydd y gwr gwadd.


Gorseddwch yr iaith
mewn cyngor a chyfarfod
CHYFARPAR CYFIEITHU

**ADLAIS**

Unedau symudol hylaw am £325 i fynny
Hefyd gyfarpar wedi ei osod yn sefydlog

*Manylion pellach gan:*
*Hywel Wyn Jones,*
*Carreg Cennen, Dolau*
*Bow Street, Dyfed*

*(Ffôn:0970-87-575)*




# COLOFN Shân Emlyn

**Fel un o'r bobol rheiny sydd wedi gwirioni efo rhamant hanes y wladfa ac yn dotio at Gymraeg y Gwladfawyr, fe hoffwn i ar ran y *Dinesydd* estyn croeso i'r cwmni bach sydd wedi dod i'r "hen wlad" eleni — nifer ohonyn nhw am y tro cynta erioed.**

Fe gafodd sawl teulu ohonom yma gyfle i'w croesawu ar ein haelwydydd fis yn ôl. Gobeithio y Byddant yn cael eu plesio yn ein Gŵyl fawr. Dihoeni y mae'r bywyd Cymraeg yn Mhatagonia er waetha dyenwch llawer teulu. Mae hynny'n drist iawn, ac eto'n anochel. Rhyfeddodd i mi fod y Gymraeg wedi blodeuo cynyd yno — mor bell o'i gwreiddiau ac am gyfnod mor hir. Gobeithiaf y bydd yr ymweliad yma yn ennyn brwdfrydedd newydd yn y criw bach i ymegnio wedi mynd yn ôl ac i barhau gyda Eisteddfod y Wladfa am sawl blwyddyn eto. Fel y dwedodd un o'r Gwladfawyr wrthyf — "mae'n rhaid bod gan y Bod Mawr fwriad wrth arwain y criw cynnar i wlad mor ddiffaith a phell" — a phwy ŵyr sawl cenhedlaeth fydd cyn y gall rhywun weld beth oedd y bwriad hwnnw a pha ddylanwad fydd gan Gymru ar Batagonia bell maes o law.

Arwyddocaol iawn oedd sylw un o'r Gwladfawyr sydd yma ar ymweliad eleni — a sylw sy'n rhybudd i ni yng Nghymru — "Y peth trist amdanom ni yn y Wladfa ydy bod yr iaith yn marw — ac yn marw heb gicio."

SHÂN EMLYN

# Pobl Llanarth yn cwyno

Roedd hi'n amlwg i rai nad oedd Euros Bowen wedi darllen yr un gerdd â'r beirniaid eraill nghystadleuaeth y Gadair. Wrth son am ymgais Glan Rhyd, cyfeiria Euros at Garn *Meilyr* neu Dinas *Meilyr*; gan son am yr un gerdd, cyfeiria Brinli at "*Meilig* Sant", a Derec Llwyd Morgan yntau at "pentwr o gerrig o'r enw Dinas *Meilig*".

Daeth dau o frodorion Llanarth i mewn i babell y *Dinesydd Dyddiol* i ddod â hyn i sylw'r cyhoedd, ac i'n sierhau mai *Meilig* yw enw'r sant arbennig hwn. Iawn, bobl Llanarth?


AM GYRSIAU ADDYSG OEDOLION YNG

NGHANOLFAN OEDOLION YR EGLWYS NEWYDD

Anfonwch amlen wedi'r chyfeirio am raglen i Mr Colin Payne, Pennaeth y Dalgylch, Ysgol Eglwys Newydd (Isa), Glanynant, Caerdydd, neu ffoniwch 614392 neu 755034


# Derbyn dau o leia i'r Orsedd



*Leah Owen*



*Dai o'r Aman, sef Dai Davies gôl-geidwad Cymru*

gan Barri Morgan a P.R.Penarth



## GWASANAETH ARBENNIG EISTEDDFOD




CAEAU LLANDÂF — PENTWYN

Caeau Llandâf, Heol yr Eglwys Gadeiriol, Stryd y Castell, Heol Greyfriars, Heol Casnewydd, Heol Waterloo, Rhodfa Colchester, Heol Cyncoed, Heol Gwern Rhuddi, Heol Pentwyn, Pentwyn.

**DYDD LLUN 7 — Dydd Sadwrn 12 Awst**

CAEAU LLANDÂF — PENTWYN (Rwt 51)

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Caeau Llandâf | 0830 | 0842 | 0854 | .... | 0904 | .... | 0914 | .... | 0924 | .... | 0934 | .... | 0944 | 0954 | 1004 | 1014 | .... | .... | 1044 | .... |
| Heol y Castell | 0840 | 0852 | 0904 | .... | 0914 | .... | 0924 | .... | 0934 | .... | 0944 | .... | 0954 | 1004 | 1014 | 1024 | .... | .... | 1054 | .... |
| Heol Penylan | 0858 | 0910 | 0922 | 0927 | 0932 | 0937 | 0942 | 0947 | 0952 | 0957 | 1002 | 1007 | 1012 | 1022 | 1032 | 1042 | 1055 | 1102 | 1112 | 1122 |
| Pentwyn | 0912 | 0924 | 0936 | 0941 | 0946 | 0951 | 0956 | 1001 | 1006 | 1011 | 1016 | 1021 | 1026 | 1036 | 1046 | 1056 | 1109 | 1116 | 1126 | 1136 |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Caeau Llandâf | .... | 1114 | .... | .... | 1144 | .... | 1214 | 1229 | 1244 | 1259 | 1314 | 1329 | 1344 | 1359 | 1414 | 1444 | 1514 | .... | .... | .... |
| Heol y Castell | .... | 1124 | .... | .... | 1154 | .... | 1224 | 1239 | 1254 | 1309 | 1324 | 1339 | 1354 | 1409 | 1424 | 1454 | 1524 | .... | .... | .... |
| Heol Penylan | 1132 | 1142 | 1152 | 1202 | 1212 | 1227 | 1242 | 1257 | 1312 | 1327 | 1342 | 1357 | 1412 | 1427 | 1442 | 1512 | 1542 | 1552 | 1602 | 1612 |
| Pentwyn | 1146 | 1156 | 1206 | 1216 | 1226 | 1241 | 1256 | 1311 | 1326 | 1341 | 1356 | 1411 | 1426 | 1441 | 1456 | 1526 | 1556 | 1606 | 1616 | 1626 |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Caeau Llandâf | 1704 | 1714 | 1724 | 1734 | 1744 | 1754 | .... | 1804 | .... | 1814 | .... | 1824 |
| Heol y Castell | 1714 | 1724 | 1734 | 1744 | 1754 | 1804 | .... | 1814 | .... | 1824 | .... | 1834 |
| Heol Penylan | 1732 | 1742 | 1752 | 1802 | 1812 | 1822 | 1827 | 1832 | 1837 | 1842 | 1847 | 1852 |
| Pentwyn | 1746 | 1756 | 1806 | 1816 | 1826 | 1836 | 1841 | 1846 | 1851 | 1856 | 1901 | 1906 |

PENTWYN — CAEAU LLANDÂF

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pentwyn | 0958 | 1028 | 1058 | 1128 | 1143 | 1158 | 1213 | 1228 | 1243 | 1258 | 1313 | 1328 | 1343 | 1358 | 1413 | 1428 | 1443 | 1458 | 1528 | 1558 |
| Heol Penylan | 1014 | 1044 | 1114 | 1144 | 1159 | 1214 | 1229 | 1244 | 1259 | 1314 | 1329 | 1344 | 1359 | 1414 | 1429 | 1444 | 1459 | 1514 | 1544 | 1614 |
| Heol y Castell | 1032 | 1102 | 1132 | 1202 | 1217 | 1232 | 1247 | 1302 | 1317 | 1332 | 1347 | 1402 | 1417 | 1432 | 1447 | 1502 | 1517 | 1532 | 1602 | 1632 |
| Caeau Llandâf | 1042 | 1112 | 1142 | 1212 | 1227 | 1242 | 1257 | 1312 | 1327 | 1342 | 1357 | 1412 | .... | 1442 | .... | 1512 | .... | 1542 | 1612 | 1642 |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pentwyn | 1608 | 1618 | 1628 | 1638 | 1648 | 1658 | 1708 | 1718 | 1728 | 1738 | 1748 | 1758 | 1808 |
| Heol Penylan | 1624 | 1634 | 1644 | 1654 | 1704 | 1714 | 1724 | 1734 | 1744 | 1754 | 1804 | 1814 | 1824 |
| Heol y Castell | 1642 | 1652 | 1702 | 1712 | 1722 | 1732 | 1742 | 1752 | 1802 | 1812 | 1822 | 1832 | 1842 |
| Caeau Llandâf | 1652 | 1702 | 1712 | 1722 | 1732 | 1742 | 1752 | 1802 | 1812 | 1822 | 1832 | 1842 | .... |

*Bydd bysiau arbennig yn gadael Pentwyn am Gaeau Llandâf ar ôl y cyngherddau yn y Pafiliwn bob nos.*


# Y Bwrdd Ffilmiau Cymraeg

*GWASANAETH I GYMRU*

**Cynhyrchu Ffilmiau**
**Dosbarthu Ffilmiau**
**Y Sinema Deithiol**
**Cyfathrebu Cymdeithasol (GWELD)**
**Cefnogi talentau newydd**
**Cyfleusterau cynhyrchu annibynnol**

*Ysgrifennwch am fanylion i'r:*
*Bwrdd Ffilmiau Cymraeg,*
*Ffordd y Coleg,*
*Bangor.*
*Ffôn: (0248) 4687.*

Theatr yr Ymylon
yn
Y Pembroke Terrace
Churchill Way, Cardiff



Rhydwen Williams fel Daniel Owen
yn darllen

# "HUNANGOFIANT RHYS LEWIS"

Llun, Awst 7fed — Dydd Sadwrn Awst 12fed. 7.45p.m.
Tocynnau £1.00. Plant 50c.
Swyddfa tocynnau, Caerdydd 372231

# LLYS YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL

Cefnogwch waith yr Eisteddfod
Ymunwch â chorff llywodraethol
y Brifwyl

Prynwch gyhoeddiadau'r Llys:
YR EISTEDDFOD
gan
Hywel Teifi Edwards
(Pris £1.75)

Cyfrol Medal Ryddiaith Wrecsam:
TRIPTYCH
gan
R. Gerallt Jones
(Pris £1.00)

**FFURFLEN AELODAETH**

Dymunaf fod yn aelod o Lys yr Eisteddfod Genedlaethol

ENW: ...........................................................

ENW LLAWN:

CYFEIRIAD: ...............................................

...........................................................................

...........................................................................

Amgaeaf danysgrifiad o:

£2 (lleiafswm) am aelodaeth blwyddyn
£20 am aelodaeth oes

**Anfoner at:** D. Hugh Thomas, Ysgrifennydd Aelodaeth, Llanfaes, 50 Church Road, Baglan, PORT TALBOT.

**NEU:** GADEWCH YR AMLEN YN *Y BABELL YMHOLIADAU* AR Y MAES.



# UCAC

## Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Yr unig Undeb athrawon sydd 100% o blaid Cymreictod. Yr unig Undeb Llafur annibynnol sydd â'i Bencadlys yng Nghymru ac sy'n buddsoddi ei arian i gyd yng Nghymru. Manylion pellach oddi wrth: Gareth Miles, Trefnydd Cenedlaethol UCAC, 11 Heol Gordon, Caerdydd CF2 3AJ. (Ffôn: 494692)

MUDIAD EFENGYLAIDD CYMRU
**CYFARFODYDD PREGETHU**

Nos Wener - y Parch. Gwynn Williams

Yn Ysgoldy y Methodistaid Saesneg
Ffordd Cyncoed, Cyncoed am 8

LLYFRGELL EFENGYLAIDD CYMRU
Darlith Gyhoeddus ar
**ISLWYN**
Gan Gwyn Davies
Coleg Prifysgol Aberystwyth
Pabell y Cymdeithasau
Dydd Gwener am 12.30pm

PLAID CYMRU MERTHYR TUDFUL

Noson Fawreddog
**yn y Gwesty Baverstock**

CINIO, DAWNS CABARET

TRIBAN, Y DILIAU
ELINOR BENNETT (Telynores)
RHYDWEN WILLIAMS
ac eraill

Gwesteion:

Mr & Mrs Gwynfor Evans
Mr & Mrs Eurfyl ap Gwilym
Mr & Mrs Dafydd Wigley

**NOS WENER, 15fed MEDI, 1978**
**8.00 p.m. — 1.00 a.m.**

**Mynediad: £6.00**

*Tocynnau ar gael ym Mhabell y Ddraig Goch*

*NOS WENER, 11 AWST*
*am 7.30*
*yn*
*Eglwys Gadeiriol Babyddol,*
*Heol Siarl,*

CWMNI DRAMA
**YSGOL GYFUN**
**RHYDFELEN**

YN CYFLWYNO
**CWYMP AC**
**ADFERIAD DYN**

# Amodau teg i'r sianel

**Parhau'r ymgyrchu hyd nes y sicrheir amodau teg i'r sianel Gymraeg oedd byrdwn Cyfarfod Cyhoeddus Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ar faes yr Eisteddfod brynhawn ddoe.**

"Hawdd fyddai inni roi'r gorau i son am y bedwaredd sianel a gadael y cyfan i'r awdurdodau darlledu," meddai Rhodri Williams, Cadeirydd y Gymdeithas, wrth annerch "Oni sicrheir amodau teg fe fydd y sianel yn fethiant trychinebus. Mae'r ymgyrch nawr felly'n bwysicach nag erioed."

Dywedod Mr Dafydd Elis Thomas A.S. fod y Papur Gwyn yn gam yn ôl oherwydd gostwng y nod dechreuol o 25 awr i 20 awr yn unig. Condemniodd yr oedi am bedair blynedd a thynodd sylw at sefyllfa ansicr y sianel.

Wrth gadeirio 'r cyfarfod pwysleisiodd y Dr. Meredydd Evans y byddai'n rhaid i'r sianel gystadlu a'r sianelau eraill ac mae'r gystadleuaeth honno'n debyg o ffyrnigo. Galwodd ar Gymry o bob oedran i barhau i ymgyrchu.

# Cwyn o Lydaw

Mae ugain o Lydawyr sy wedi dod i'r Eisteddfod i weld gwaith diwylliannol y Cymru i amddiffyn eu hiaith yn tynnu sylw'r Cymry ar babell bwrdd twristiaeth Ffrainc yn Llydaw.

Yn y babell honno mae posteri Cymraeg oherwydd y Reol Gymraeg. Ond does dim byd yn y Lydaweg:- does dim rhaid! Dim lle i'r Lydaweg, fel arfer, fel yn Llydaw.

Gallai'r Cymry er mwyn helpu'r LLydawyr, sy'n ceisio cadw eu hiaith yn fyw, fynd i ofyn i bobl y babell pam nad oes dim byd yn Llydaweg; pam dydyn nhw ddim yn poeni o gwbwl, oes pwrpas gwerthu gwyliau mewn un gwyl ddiwylliannol pan fod diwylliant arall yn marw?

# Dysgwr o fri

Cystadleuaeth ddiddorol iawn i ddysgwyr Caerdydd a'r Cylch ac i ddysgwyr Aberystwyth oedd cystadleuaeth adrodd dros 18 'Morgannwg' T. Llew Jones. Yr enillydd oedd Mrs Cynthia Edwards — cyn-ddisgybl yn Ysgol Ramadeg yr Eglwys Newydd ac aelod o Ysgol Nos yng Nghaerffili sy bellach yn byw yn Aberystwyth. Llongyfarchiadau calonnog iddi.

# TŶ BACH

**Mae cael bod yn Ohebydd Arbennig Y DINESYDD yn agor drysau cudd yr Eisteddfod. Mae cael defnyddio tŷ bach gwareiddiedig y Wasg yng nghefn y Pafiliwn yn fendith iachusol, ond tra bo gohebydd y *Times* a mân bapurau eraill yn chwysu ar y ffôn, dim ond picio lawr y maes i freichiau diogel y Golygydd sydd raid i mi.**

**O.N. Ymddiheuriadau i Mati Pritchard am ddefnyddio ei basged siopa fel bin sbwriel.**

# Ffydd y Baha'i

Mae'r Bahaiaid yng Nghymru wedi cymryd rhan yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn aml dros y blynyddoedd ond mae gan Eisteddfod '78 arwyddocâd arbennig i Bahaiaid Caerdydd. Y flwyddyn yma maent wedi dathlu sylfaeniad eu Cynulliad Ysbrydol ddeg ar hugain o flynyddoedd yn ôl.

Mae ffyrdd y Bahai yn ffydd byd-eang. Rhai o'i hegwyddorion byd-eang yw

undod crefydd; undod dynol ryw; cydraddoldeb dyn a menyw; llywodraeth byd-eang; dilead rhagfarnu; addysg gyffredinol orfodol.

Mae sylfaenwr y ffydd yn datgan mai ffydd y Baha'i yw datguddiad yr oes yma.

Mae Bahaiaid Caerdydd yn cynnal cyfarfod cyhoeddus:

Dydd Gwener, 11eg Awst 7.30p.m. Cyfarfod Cyhoeddus yn y Porth. Yholiadau i'r Babell Baha'i ar y maes.

**SAIN — RECORDIAU'R DYDD**

YNG NGHWMNI BOB OWEN,
CROESOR Sain (1126D)
CRYSBAS — "DRAENOG MARW"
Sain (66S)

**AR WERTH YM MHABELL SAIN**
**DEWCH HEIBIO!**
sain

**LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU**
**ABERYSTWYTH SY23 3BU**

**Cyhoeddiadau cyson y Llyfrgell**

- Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru — sy'n ymddangos bob hanner blwyddyn. Tanysgrifiad blynyddol o 1979 ymlaen — £3.00.
- Rhestr Llawysgrifau sydd yn y Llyfrgell. Prisiau rhwng 20c a 40c y Rhan.
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru — Crynodeb Byr o'i Hanes a'i Gweithgareddau. Pris 10c.
- Bibliotheca Celtica — cofrestr cyhoeddiadau sy'n berthnasol i bobl a ieithoedd Cymru a'r gwledydd Celtaidd. Prisiau yn amrywio.

**Llawer o hen gyhoeddiadau ar werth, gan gynnwys —**

- Cyfansoddiadau'r Eisteddfod Genedlaethol — amryw o flynyddoedd rhwng 1888 a 1942 25c a 15c
- Cofrestr o'r holl Lyfrau Printiedig gan mwyaf a gyfansoddwyd yn y Iaith Gymraeg (1912) 20c
- Rhestr o Lyfrau a argraffwyd yng Nghaerfyrddin gan John Ross rhwng y blynyddoed 1763 a 1807 (1916) 25c
- Rhestr o Lyfrau gan y Parch. William Williams Pantycelyn a argraffwyd rhwng 1744 a 1800 (1918) 25c
- 'Series of Old Welsh Texts', a olygwyd gan J. Gwenogfryn Evans:
  Poetry by Mediaeval Welsh Bards 55c
  Llyfr Iob 10c a 5c

Y mae cludiad yn ychwanegol at y prisiau uchod. Gellir cael manylion holl gyhoeddiadau'r Llyfrgell drwy anfon a y **Rhestrau Cyhoeddiadau** at Ysgrifennydd y Llyfrgell yn y cyfeiriad uchod neu ffonio 0970/3816-9, estyniad 206.


# A oes gennych blentyn dan oed ysgol?

A hoffech i'r plentyn dderbyn addysg feithrin Gymraeg?

Os nad oes gennych wybodaeth am Gylch Meithrin Cymraeg o fewn cyrraedd i chwi, anfonwch air atom, ac fe gewch y manylion am Swyddog Datblygu eich ardal, ac am y Cylch Meithrin agosaf i'ch plentyn ei fynychu.

*Anfoner at:-*
*Y CYFARWYDDWR,*
*MUDIAD YSGOLION MEITHRIN,*
*CANOLFAN YR URDD,*
*HEOL CONWY,*
*CANTON,*
*CAERDYDD.*
*FFÔN: 36113*

**CRASBOETH o'r LOLFA!!**





**Nofel antur/dditectif orau'r ganrif yn Gymraeg. £1.95**




**Cant o dafarnau gorau Cymru gyda llun a malu cachu am bob un. £1.25**








**Y Llewod diweddara! 85c yr un**

**Mynnwch ein catalog rhad.**

**Y Lolfa**

Talybont Ceredigion ffôn 304



**MISTAR URDD**
Aelod enwoca'r Urdd
ac arwr plant Cymru

Galwch heibio i'w weld
yn **SIOP MISTAR URDD**
**ar faes Eisteddfod Caerdydd**

CYMDEITHAS
## TAI GWYNEDD

- Erbyn diwedd 1978, bydd y Gymdeithas elusennol hon wedi darparu 27 o gartrefi i deuluoedd ym mhentrefi Gwynedd.
- Gellwch ein helpu i ddarparu mwy drwy roi benthyg arian i'r Gymdeithas ar log o 6% — neu'n ddi-log.

*Manylion pellach oddi wrth:*

*Y Trefnydd, Cymdeithas Tai Gwynedd, Penygroes, Caernarfon, Gwynedd.*

Croeso i babell
## Cymorth Cristnogol
i weld......
Arddangosfa gan Ysgolion Cyfun Llanhari a Rhydfelen
ac Ysgol Howells, Caerdydd;
hefyd lluniau o gynlluniau â gefnogwn.
i brynu......
Bathodynnau, Beiros, Defnyddiau a Chardiau Nadolig. Dewch heibio am 'baned o goffi yn ystod yr wythnos.
*SAFWN DROS GYFIAWNDER A DANGOSWN DOSTURI TUAG AT EIN CYD-DDYN.*

*Urdd Gobaith Cymru*
Cwmni Drama Aelwyd Caerdydd yn cyflwyno
**RIFIW**
**'NEB YN DEILWNG'**
ARENA
THEATR Y SHERMAN
Nos Iau Awst 10
Nos Wener Awst 11
Nos Sadwrn Awst 12
am 10.30 o'r gloch
**MYNEDIAD £1**
Tocynnau ar gael o:-
Babell y Ganolfan ar y maes

***GWERIN***
Uned 74 ar y maes
Cofiwch alw


Siop:-
102 Heol Albany
Y Rhath
Caerdydd
Ffôn: 496615

Elwyn Williams (Athro Coleg Cerdd a Ddrama Cymru, a chyn fyfyriwr Academi Cerddorol Frenhinol, Llundain, ac Academi Gerddorol Sant Cecilia, Rhufain) yn derbyn Disgyblion mewn piano, llais, arwain (corawl a cherddorfaol), a chyfeiliant. Hefyd hyfforddiant am weithgareddau arbennig e.e. eisteddfodau, a chyngherddau etc. Telerau rhesymol.

Am ragor o fanylion ysgrifennwch neu ffoniwch:
Elwyn Williams,
41 St. Benedict Cres.,
Heath, Caerdydd.
Ffôn: 611435.

**Siop Eifionydd**
Porthmadog

Pob math o
offeryniau cerdd.
Llyfrau a recordiau.
Ffôn: (0766) 2795




**Cyhoeddwyr Cleglen Cyf,**
**(Argraffwyr),**
**Ffôn: (0222) 396262**

bd

# Gwneud hanes

Mae Cwmni Cyhoeddi Cleglen Cyf yn falch o fod wedi darparu'r modd i alluogi papur dyddiol Cymraeg cyntaf Cymru, *Y Dinesydd Dyddiol*, i gael ei argraffu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd.

**CLEGLEN + AP DAFYDD**



# CYMRY AR WASGAR

## gan Sharon Morgan

Y nesaf yn ein cyfres am Gymry sydd naill ai wedi dewis neu wedi gorfod mynd dros Glawdd Offa i fyw yw Sharon Morgan, yr actores. Mae Sharon yn ymddangos yn y "West End" ar hyn o bryd, ac wedi bod yn byw yn Llundain ers rhai misoedd.

**Dwi'n darllen copi o'r "Cymro" sy'n dair wythnos oed o glawr i glawr, yn cynnwys 'Trin yr Ardd' a 'Myfyr y Maes' — mae'n rhaid bod hi'n wir mae 'Gwell Cymro, Cymro oddi cartref'. Dw'i hefyd yn gwrando'n astud ar 'Byd y Bêl' a 'Dewch am Dro': mae modd derbyn Radio Cymru yma — os dwi'n rhoi'r radio ar ben y wardrob ar ei ochr a mae rhaglenni am bryfaid ar brynhawn dydd Mawrth yn gallu bod yn ddiddorol dros ben! Dwi'n gweld pethe â llygaid newydd — a dyna oeddwn i'n gobeithio bydde'n digwydd pan dderbyniais i gytundeb i gymryd rhan mewn cynhyrchiad o "Under Milk Wood" oedd i fynd i'r West End am gyfnod amhenodol.**

Enw'r cwmni yw "The Welsh National Theatre" ond allai'ch sicrhau chi mae fi yw'r unig aelod o'r cast sy wedi clywed am y *Dinesydd*. Mae Cymry Llundain yn wahanol d'oes dim dwywaith, a hyd yn hyn, hiraeth neu beidio, dwi ddim wedi ymweld â Grey's Inn na chapel Charing Cross.

Achos dwi'i yn hiraethu, d'oedd gen i mo'r syniad leia' y byddwn i mor ddwl o hiraethus; i'r gwrthwyneb, roeddwn i'n edrych ymlaen at anghofio probleme'r Cymry Cymraeg sydd ohoni. Dw'i ddim wedi, wrth gwrs, dw'i byth a hyfyd yn son amdanyn nhw wrth bobl sydd heb ddim diddordeb. Yn ddiweddar es i weld cyfarwyddwr castio 'London Weekend' a phan esboniais mod i wedi dysgu Saesneg yn yr ysgol — meddai "Oh, the real thing — how quaint!" D'oes na neb yn deall — mae dweud mod i wedi bod yn actio'n Gymraeg am 8 mlynedd yn peri syndod ag anghrediniaeth; mae'r ffaith bod Molière ap Ibsen wedi'i perfformio'n Gymraeg yn rhyfedd iawn, a mae teithio "one-night stands" yn anhygoel o wirion!

Dwi'n tueddu i gytuno a'r diwethaf 'na — dyna un rheswm pam dwi'n falch i fod 'ma — dw'i wedi bod yn perfformio'r un ddrama yn yr un theatr am 6 wythnos nawr, ag er bod rhywun yn diflasu weithiau, mae modd canolbwyntio'n llwyr ar y perfformiad gan wybod bod amser i wella o hyd ag o hyd. D'oes neb dw' i'n nabod yn y gynulleidfa chwaeth — felly os byddwch chi'n digwydd pasio!

Wrth gwrs r'oedd y syniad o berfformio yma'n codi ofn arna'i i ddechre — Y West End canolfan theatrig Lloegr! A ma 'na bethe gwych yma. Ond fwyfwy dwi'n sylweddoli gymaint mae Cymru wedi diodde o fod yn gymydog i Loegr! Mae'r Saeson yn arbennig o dda am ymddangos yn hyderus, mae ganddyn nhw gymaint o ffydd ynddyn nhw'u hunain. Dyna beth sy angen arnom ni. Mae ganddon ni'r talent, mater o'i ddefnyddio a'i sianelu yw hi — beirniadu a dadansoddi llai — a cydweithio fwy er mwyn popeth!

Ond i droi at bethe ysgafnach — fe fûm i'n dybio ffilm "Shane" mewn stiwdio ddybio danddaearol y diwrnod o'r blaen. R'oedd hi fel Cymry fach ynghanol Soho — ag wrth ganu "rwy'n gadael Cheyenne, i ffwrdd i Montana" sylweddolais pa mor glos a chartrefol ynni fel cenedl a pa. Mae'n swnio'n amlwg ond maddeuwch i mi — 'ma Cymru mor fach! 'ma cyn lleied ohonom ni!

A r'un mor amlwg — dydi hyn ddim yn wir am Lundan! Mae gormod o bobl 'ma — mae'n fudr ag yn swnllyd mae'n afiach ag annaturiol yn ahersonol a chreulon — ag ochr arall y geiniog mae'n gyffrous iawn — siope cyfareddol, ffilmia, dramau, cyngherddau, amgueddfeydd, tai bwyta — ma popeth i gael yma! Yr unig beth sy o'i le ar Llunden yw ei bod hi yn Lloegr fel dwedodd rhywun rhywbryd.

Ta waeth, mae'n ddechre mis Awst a mae'n Steddfod yng Nghaerdydd, a dw'i ddim yna. Bydd rhaid sefyll ar ben cadair i glywed y radio'n gliriach o ben y wardrob a dw'i mond yn gobeithio na fydd "Under Milk Wood" yn rhedeg tan Steddfod Caernarfon!



## Oes gafr eto?

Nag oes debyg. Wel, nid gafr fetel beth bynnag. Fe ddiflannodd honno o'i phorfa betryal o flaen y Babell Celf a Chrefft.

Bellach gellir gweld rhai eisteddfodwyr yn edrych yn syn ar y man lle bu'r afr — y domen bridd gyda'r rhaff yn ei hamgylchynu — gan rhyw fudr amau, rywsut, mai cyflwyniad artistig cyfoes ryfeddol yw'r cyfan o Wacter Ystyr ein gwareiddiad gorllewinol. Pwy a wyr beth i'w feddwl erbyn hyn ym myd Celf? Mé...ê...ê.

NOS WENER YR EISTEDDFOD
TOP RANK CAERDYDD: AWST 11
8p.m.–2a.m. (Bar Hwyr)

**EDWARD H. DAFIS**
**DAFYDD IWAN**
**RICHARD (SOSBAN) REES –**
**DISCO**

Tocynnau £1.50 (£1.25 am archebion o 10 neu fwy)

**TOCYNNAU:**
**PABELL Y DDRAIG GOCH**

## Wastad ar y tu fas

Y TRWYNAU COCH
'WASTAD AR Y TU FAS'

Dyma record ffantastig sy'n llawn o'r rhwyddineb a'r sbort sy'n nodweddiadol o ddawnsfeydd y Trwynau, ond yn ddiddorol ar y llaw arall i'r ffric (fel fi) sy am feirniadu'r geiriau a'r alaw.

Y peth cynta sy'n taro dyn yw'r fformiwla drymiau/bas sy bron yr un peth ar bob cân ar y ddwy record — eto'i gyd mae popeth yn swnio'n gwbl wahanol! Mae gan y Trwynau ryw chweched synwyr sy'n rhoi iddynt alawon gyda phatrymau cordiau a dilyniadau da dros ben.

'S' dim angen manylu am y geiriau, digon yw dweud mai anniddigrwydd a fynegir drwy eu cyfrwng. Gwelir nodweddion punk a rececer yn 'pigo arna i' 'dwy ddim eisie bod yn enwog, dwi ddim isie car mawr drud' — gwrthdystiad geiria SHWN yn 'Bachgen': 'dwy isie bod yn enwog, dwy isie car mawr drud'. Diddorol iawn, ynte?




*MR ISLWYN HUGHES a'i fab pedwar mis oed*

# Draw, draw yn Llundain . . .

**Un cornel diddorol ar y maes yw'r gornel o babell Cymry Llundain a neilltuir ar gyfer ysgol Gymraeg Llundain, sydd yn gwneud ymdrech arbennig yr wythnos hon i dynnu sylw pobl at y ffaith fod yr ysgol yno.**

Meddai Mr Islwyn Hughes, y Prifathro, "Mae llawer iawn o Gymry yn symud i Lundain i fyw bob blwyddyn, ac yn anffodus, yn prynu tŷ mewn rhyw ran o Lundain sydd yn rhy bell o'r ysgol Gymraeg iddynt allu danfon eu plant yno (mae'r ysgol yn Willesden Green). Pe gallem ni roi gwybod i'r bobl hyn cyn iddyn nhw symud *fel* yna Ysgol Gymraeg yn bod, hwyrach y bydden nhw'n fodlon ystyried dod i fyw yn y cyffiniau er mwyn sicrhau addysg Gymraeg i'w plant."

Mae'r ysgol yn dal i ffynnu ond mae mawr angen arian gan mai sefydliad gwirfoddol ydyw, a gwneir apel yng nghylchgrawn llewyrchus yr ysgol "Y Genhinen Fach", am gyfraniadau i roi'r ysgol ar ei thraed yn ariannol, yn hytrach na bod yn rhaid iddi hi hercio ymlaen o flwyddyn i flwyddyn.

Os carech wneud cyfraniad, dylid gwneud y siec yn daladwy i "Ymddiriedolaeth Ysgolion Cymraeg" a'i danfon at Gerallt Hughes, 17 Holly Park Gardens, Finchley, Llundain N3.

## Cystadlu ar yr Organ

Cynhaliwyd y ddwy gystadleuaeth organ yn y TABERNACL yr wythnos hon. WYN PARRY (18 oed) o Ddowlais oedd yn fuddugol yn y gystadleuaeth i rai dan 19 oed. Mae'n ddisgybl i'r Archgerddor D.T. Davies, Dowlais, ac yn organnydd yng nghapel Ifor.

Y buddugol yn y gystadleuaeth agored oedd CHRISTOPHER ENSTON o Dreuddyn, Clwyd, ac er nad yw ond 17 oed fe gafodd ganmoliaeth uchel gan y Dr. George Guest, Caergrawnt. Mae'n chwarae'r organ yn achlysurol yn Eglwys y Plwyf ac yn ddisgybl yn Ysgol Maesgarmon, Yr Wyddgrug. JONATHAN WATTS o Risca, Gwent a MAIR WYN JONES o Gaernarfon oedd yn ail ac yn drydydd.

Diolch i'r DINESYDD, 'roedd mwy o gynulleidfa nag arfer wedi dod i wrando ar y gystadleuaeth eleni.

# RHAGLEN HEDDIW... ...A HENO

| | |
|---|---|
| **Y PAFILIWN** | 12.55 Dweud stori (dros 25)<br>2.05 Dawns unigol Gymraeg i Ferched<br>2.25 Medal T.H.Parry-Williams<br>2.45 Araith Llywydd y Dydd Yr Arglwydd EDMUND DAVIES<br>3.00 Croesawu'r Cymry ar Wasgar<br>5.05 Cor Ieuenctid |
| **Y BABELL LEN** | 9.30 Cyflwyno Tlws Barddas<br>11.00 Trafod y Cyfansoddiadau<br>2.00 Traddodiad Gwerin Bro Morgannwg |
| **Y THEATR FACH** | 12.00 Y Ddrama Deledu: Camerau, sain (Laurie Owen)<br>10.30 Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus<br>2.00 BBC Cymru : Rhaglen i Blant |
| **Y STIWDIO GERDD** | 10.30 Trafodaeth ar gyngerdd dydd Iau<br>11.00 Awr yng nghwmni buddugwyr yr Adran Alawon Gwerin<br>12.00 "Alawon Gwerin Morgannwg" (Meredydd Evans)<br>1.00 Gwerthu tocynnau<br>2.00 Karl Orff |
| **PABELL Y CYMDEITHASAU** | 10.00 Cymdeithas Cymry Ariannin<br>12.00 "Islwyn" (Gwyn Davies) Llyfrgell Efengylaidd Cymru<br>2.00 Y Gym. Wyddonol<br>3.00 Cyhoeddiadau Modern Cymreig. "Profiadau'r Glowr" (Dai Francis) |
| **PABELL Y DYSGWYR** | 2.00 "O'r Dosbarth i'r Gymdeithas" (Cennard Davies)<br>4.00 Croeso i'r Celtiaid |

| | |
|---|---|
| **Y SHERMAN 7.30** | NOS YSTWYLL<br>Cwmni'r Eisteddfod |
| **YR ARENA (Sherman) 7.15** | PIPPI HOSAN HIR<br>Theatr Caricature. |
| **10.30** | NEB YN DEILWNG<br>Rifiw Aelwyd Canolfan yr Urdd, Caerdydd. |
| **Y THEATR NEWYDD 7.30** | CYFLWYNO CAERDYDD<br>Pasiant gan blant ysgol Bryntâf. |
| **Y PAFILIWN 7.30** | GWERIN GWLAD<br>Cyngerdd gwerin |
| **TITO'S 10.30** | Bara Caws<br>HANES LLENYDDIAETH GYMRAEG<br>550 — 621 A.D. |
| **ERAILL** | Gerddi Soffia, 8.00<br>SAFFARI SOFFIA<br>Brân<br>Trwynau Coch<br>Eliffant<br>* * * * *<br>Top Rank, 8.00<br>Edward H. Dafis<br>Dafydd Iwan<br>Richard Rees |
| **CAPEL PEMBROKE TERRACE, CHURCHILL WAY** | HUNANGOFIANT RHYS LEWIS. Theatr yr Ymylon 7.45. |

Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf, Caerdydd.